**ADRODDIAD I'R CABINET**
18 IONAWR 2022

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2021/22 –
Adolygiad Diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2021)

**Swyddog Cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**Penderfyniad a geisir**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2021) o'r rhaglen gyfalaf.

- Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
  - lleihad o £15,000 mewn defnydd o fenthyca,
  - cynnydd o £3,134,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
  - cynnydd o £104,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
  - cynnydd o £75,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
  - lleihad o £1,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
  - cynnydd o £363,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

---

## 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2021/22. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3**:** Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £127.675m am y 3 blynedd 2021/22 – 2023/24.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £3.660m ers yr adolygiad diwethaf.

Rhan 5: Manylder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £52.1m yn 2021/22 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £27.4m (53%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae effaith argyfwng Covid19 yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda dim ond 37% o'r gyllideb sydd wedi ei wario hyd at ddiwedd Tachwedd eleni, o'i gymharu â 31% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl a 51% ddwy flynedd yn ôl (2019/20, cyn amhariad Covid19).

- Mae £22.1m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2021/22 i 2022/23 a 2023/24, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i 2023/24

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Tachwedd 2021.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 8,999 | 14,909 | 4,310 | 28,218 | 2,664 |
| Amgylchedd | 13,748 | 1,019 | 121 | 14,888 | (975) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 60 | - | - | 60 | 60 |
| Cyllid | 944 | 1,282 | 838 | 3,064 | 3 |
| Economi a Chymuned | 3,245 | 1,666 | 180 | 5,091 | 701 |
| Tai ac Eiddo | 8,920 | 21,250 | 6,929 | 37,099 | (468) |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 3,383 | 3,361 | 625 | 7,369 | 2 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,785 | 482 | - | 2,267 | 35 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 9,273 | 5,995 | 3,134 | 18,402 | 167 |
| Ymgynghoriaeth | 1,834 | 7,013 | 42 | 8,889 | 1,471 |
| Corfforaethol | - | 1,828 | 500 | 2,328 | - |
| **CYFANSWM** | **52,191** | **58,805** | **16,679** | **127,675** | **3,660** |

## 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £3.660m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers yr adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 8,164 | 6,610 | 6,610 | 21,384 | - |
| Benthyca Arall | 2,074 | 7,863 | 3,289 | 13,226 | (15) |
| Grantiau a Chyfraniadau | 27,423 | 11,843 | 247 | 39,513 | 3,134 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 236 | 750 | 0 | 986 | 104 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,685 | 34 | 0 | 2,719 | 75 |
| Cronfa Cyfalaf | 843 | 9,345 | 204 | 10,392 | (1) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 10,766 | 22,360 | 6,329 | 39,455 | 363 |
| **CYFANSWM** | **52,191** | **58,805** | **16,679** | **127,675** | **3,660** |

## 5. Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf, ddiwedd Awst, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £4,936k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad yn y defnydd o grantiau yn dod â chyfanswm y symudiad i £3,134k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £2,331k Grant Cynnal a Chadw Ysgolion
- £1,452k Grant Llywodraeth Cymru tuag at Atal Llifogydd
- £409k Grant Cronfa Symbyliad Economaidd
- £308k Grant Ysgolion Ganrif 21 – Gofal Plant Ysgol Treferthyr
- £285k Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig
- £151k Grantiau tuag at gynlluniau Morwrol a Pharciau Gwledig gan Lywodraeth Cymru

## 6. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 i 2023/24, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).**

## 7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2021/22 – 2023/24.

## 8. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 9. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2021/22 i 2022/23
- Atodiad C: Gwariant 8 mis cyntaf 2021/22

----------------------------

**ATODIAD A**

**Manylion y Prif Newididau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

| | 2021/22<br>£'000 | 2022/23-2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Cynnal a Chadw Ysgolion *(Adran Addysg).* | 2,331 | |
| • Grant Ysgolion Ganrif 21 - Gofal Plant Ysgol Treferthyr *(Adran Addysg).* | 308 | |
| • Grantiau Cronfa Symbyliad Economaidd *(Adran Economi a Chymuned; Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 409 | |
| • Grantiau tuag at gynlluniau Morwrol a Pharciau Gwledig gan Lywodraeth Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 151 | |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at Gynlluniau Atal Llifogydd - grantiau ychwanegol ac yn cymryd lle elfen o'r ariannu Menter Benthyca Llywodraeth Leol (LGBI) *(Adran Ymgynghoriaeth).* | 543 | 909 |
| • Lleihau'r defnydd o'r grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | (1,154) | |
| • Lleihau'r defnydd o'r grantiau o'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | (106) | |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig gan gynnwys tirweddau cynaladwy *(Adran Amgylchedd).* | 285 | |
| • Addasiad yn y cynllun ariennir trwy Grant Digartrefedd gyda Llywodraeth Cymru yn talu trydydd parti yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy'r Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo).* | (530) | |

| | | |
|---|---|---|
| **Benthyciadau Arall** | | |
| • Cerbydau Priffyrdd a Bwrdeistrefol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | (15) | |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Newid ariannu cyfatebol Canolfan Ailgylchu Llandygai *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 104 | |
| **Refeniw Adrannol a Chorfforaethol** | | |
| • Cyfraniadau Ysgolion tuag at gynlluniau *(Adran Addysg).* | 26 | |
| • Newid ariannu cyfatebol Canolfan Ailgylchu Llandygai a chynlluniau eraill *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | (93) | |
| • Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Economi a Chymuned; Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant; Adran Tai ac Eiddo; Adran Cefnogaeth Gorfforaethol).* | 142 | |
| • Addasiad Technegol *(Corfforaethol).* | 406 | (406) |
| **Cronfa Cyfalaf** | | |
| • Addasiad Technegol *(Corfforaethol).* | (406) | 406 |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Arian cyfatebol tuag at gynlluniau Parciau Gwledig *(Adran Economi a Chymuned).* | 32 | 50 |
| • Adnewyddu cerbydau ac offer *(Adran Plant a Theuluoedd; Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 175 | |
| • Cyfraniadau tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Ymgynghoriaeth; Adran Tai ac Eiddo; Adran Cefnogaeth Gorfforaethol).* | 102 | |

---------------------------

**ATODIAD B**

**Manylion Ail-broffilio**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | **2021/22 £'000** | **2022/23 £'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (5,370) | 5,370 |
| Adfywio Tref a Glannau Caernarfon *(Adran Economi a Chymuned)* | (140) | 140 |
| Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)* | (366) | 366 |
| Cynllun Buddsoddiad Neuadd Dwyfor *(Adran Economi a Chymuned)* | (114) | 114 |
| Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirchen *(Adran Plant a Theuluoedd)* | (232) | 232 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion,Iechyd a Llesiant)* | (750) | 750 |
| Cynlluniau Sefydliadau Gofal Dydd Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (1,161) | 1,161 |
| Adnewyddu Cerbydau *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Adran Ymgynghoriaeth)* | (1,219) | 1,219 |
| Cynlluniau Bwrdeistrefol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)* | (48) | 48 |
| Cynlluniau Atal Llifogydd *(Adran Ymgynghoriaeth)* | (5,816) | 5,816 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth *(Adran Amgylchedd)* | (176) | 176 |
| Gwelliannau Trefol *(Adran Amgylchedd)* | (20) | 20 |
| Ail-wynebu Meysydd Parcio *(Adran Amgylchedd)* | (219) | 219 |
| Pwyntiau Gwefru Cerbydau *(Adran Amgylchedd)* | (356) | 356 |
| Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)* | (48) | 48 |
| Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,210) | 2,210 |
| Cynlluniau Strategaeth Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (6,187) | 6,187 |
| Cynlluniau Addasiadau Swyddfeydd *(Adran Tai ac Eiddo)* | (123) | 123 |
| Cynlluniau Cynnal a Chadw wedi eu cyfalafu *(Adran Tai ac Eiddo)* | (126) | 126 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (1,347) | 1,347 |
| Cynllun Gwaredu Asbestos *(Adran Tai ac Eiddo)* | (400) | 400 |
| Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,925) | 2,925 |
| Uwchraddio'r System Ariannol *(Adran Cyllid)* | (14) | 14 |
| Adnewyddu Cyfarpar TG *(Adran Cyllid)* | (500) | 500 |
| Adnoddau Cynllun Asedau heb ddyrannu tan 22/23 *(Corfforaethol)* | (1,328) | 1,328 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

**ATODIAD C**

**Gwariant Cyfalaf 8 Mis Cyntaf 2021/22**

| **CRYNODEB** | **RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Tachwedd) 2021/22 £'000** | **GWIR WARIANT 8 MIS HYD AT 30/11/2021 £'000** |
|---|---|---|
| Addysg | 8,999 | 3,496 |
| Amgylchedd | 13,748 | 3,752 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 60 | 59 |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 944 | 300 |
| Economi a Chymuned | 3,245 | 1,341 |
| Tai ac Eiddo | 8,920 | 4,525 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 3,383 | 1,014 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,785 | 448 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 9,273 | 4,335 |
| Ymgynghoriaeth | 1,834 | 119 |
| Corfforaethol | - | - |
| **CYFANSWM** | **52,191** | **19,389** |

**Noder:**
Mae’r gyfran sydd wedi’i wario eleni (37%) yn uwch na’r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 8 mis 2020/21 yn 31%), ond yn is na dwy flynedd yn ôl (51% yn 2019/20, cyn amhariad Covid19).